# Asesu tir pori ar gyfer cyflwyno ceffylau

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hwn yn ymwneud ag asesu tir pori ar gyfer cyflwyno ceffylau.

Mae hyn yn cynnwys adnabod a dileu peryglon, darparu cyflenwad addas o ddŵr a gwirio ffiniau ac ansawdd pori.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu maint ac ansawdd tir pori er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer cyflwyno ceffylau
2. cadarnhau bod ffiniau'r tir pori yn ddiogel a, lle y bo'n briodol, hysbysu ynghylch unrhyw broblemau, yn cynnwys ar lafar ac yn ysgrifenedig
3. cadarnhau bod gatiau'r tir pori yn ddiogel a hysbysu ynghylch unrhyw broblemau, yn cynnwys ar lafar neu'n ysgrifenedig
4. sicrhau bod cyflenwad digonol o ddwr glân ar gael i'r ceffylau
5. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm effeithiol
6. adnabod a hysbysu ynghylch peryglon neu adrodd i'r person priodol yn eu cylch
7. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. cyflwr ac ansawdd y glaswellt a nifer y ceffylau y gellir eu cadw arno
2. y mathau gwahanol o ddarparu dwr ar gyfer ceffylau
3. pwysigrwydd pori glân wrth atal heintiau parasitig
4. y mathau cyffredin o blanhigion a chwyn sydd yn wenwynig i geffylau a sut i'w hadnabod
5. addasrwydd cyflenwad dwr y ceffylau
6. addasrwydd mathau gwahanol o ffensys neu ffiniau ar gyfer ceffylau
7. lleoliad delfrydol gât a mesurau priodol ar gyfer sicrhau gatiau
8. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Geirfa

Mae'r ffiniau'n cynnwys:

- muriau
- ffensys
- ffosydd
- gwrychoedd

Asesu tir pori ar gyfer cyflwyno ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq208 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; pori; cae; tir; ffiniau; iechyd a lles anifeiliaid |